# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

**DYDD** Llun, 26 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
R. W. Waters, Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Swyddfa'r Cyfarwyddwr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin:** 1.00 pm - 1.25 pm

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 9FED MAWRTH 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniadau o gyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2018 gan ei fod yn gofnod cywir.**

**3. GWRTHWYNEBIADAU I ORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN - CYFYNGU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD - (CAERFYRDDIN) (AMRYWIAD 17)**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad a oedd yn manylu ar wrthwynebiadau i gynnig y Cyngor o ran gwneud Gorchymyn i ddiwygio Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Caerfyrddin) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) 2004 (Amrywio Rhif 17). Diben y cynnig oedd diogelu defnyddwyr ffyrdd a hwyluso llif traffig diogel a dirwystr mewn amrywiol leoliadau yng Nghaerfyrddin fel y dangosir yn yr atodlen sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Rhoddwyd gwybod nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law i'r cynnig oddi wrth yr ymgyngoreion statudol, ond er hynny roedd tri gwrthwynebiad wedi dod i law oddi wrth y cyhoedd, fel y manylwyd yn Atodiad 3 i'r adroddiad ynghyd ag ymatebion yr Adran iddynt.

**PENDERFYNWYD nodi'r gwrthwynebiadau oedd wedi dod i law i'r Gorchymyn arfaethedig i ddiwygio Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Caerfyrddin) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) 2004 (Amrywio Rhif 17) ond bod y Gorchymyn yn cael ei gadarnhau, fel y manylwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn amodol ar y newid a nodwyd ym mharagraffau 3.2 yr adroddiad a bod y gwrthwynebwyr yn cael gwybod am hynny.**

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**